CARWRIAETH

SHINI BEN CHWIW

A MINAU

Ar y dôn, "Robin yn Swil."

1.

'Roedd Jenny fy nghariad yn llawer o ferch,
Ac arni o fwriad y rhoddars fy serch,
Wrth weled mor ddengar oedd llygad y fun,
Deallais fod Jenny yn daer am gael dyn :
'Roedd Jenny mor ffri,
A rhyfedd mor ffri,
Gwnaeth ofid i'm calon ei chanfod mor ffri.

2.

Mae gyda Jenny, 'dwy'n d'wedyd [illegible],
Ei bod yn ddifyr, dair milltir o dre';
O'i gweled mor laned a lloned ei llun,
Deallais fod Jenny yn daer am gael dyn:
'Roedd Jenny, &c.

3.

Canfyddais ryw lencyn 'n ei dilyn hi'n dŷn,
Gan dretio lliw'r ewyn â nogyn o gin,
A'i thynu i gornelach, lle hawddach ei thrin
Trueni ei gweled mor daered am ddyn:
'Roedd Jenny, &c.

4.

Pan fyddwyf fel yma'n ymboeni'n y gwŷdd
Mae Sian ar fy meddwl yn gwbl bob dydd,
A hithau'n ymwibio, dan gilio o'm gwŷdd,
Deallwn i'r lodes a'i neges yn rhwydd:
'Roedd Jenny, &c.

5.

Ei gwenau hawddgaraf a ddenodd fy mryd,
A thybiwn hi'r blaenaf o ferched y byd;
Ei llygad oedd siriol a boddol i mi,
A mawr fy nifyrwch os coeliwch chwi fi:
'Roedd Jenny, &c.

6.

Pan awn gyda Jenny i farchnad neu ffair,
Cusanai hi'r bechgyn cyn siarad un gair;

A minau yn gwelwi o gariad Gwen fad,
A hithau'n cusanu holl feehgyn y wlad ;
Mae Jenny mor ffri, &c.

7.

Yn ffair Coedycymer, hi wnaeth'a'mi dro,
Nas gallaf yn fuan ei ollwng o'm co',
'Nol prynu chwech teisen i roi iddi hi,
Rhoes hanner y rheiny i Mocyn Cwmdu :
Mae Jenny mor ffri, &c.

8.

Addawodd yn ffyddlon nos Sadwrn y *pay*,
Fy nghwrdd yn Nhrecastell ar fore dydd Iau
Ond pan yn brig-nosu 'roedd Jack Lanygors
A hithau'n cydyfed ar lofft y *Black Horse* :
Mae Jenny mor ffri, &c.

9.

[redacted] yno mewn prudd-der yn edrych o bell
[redacted] ni'n ymffrostio fod ganddi fy ngwell ;
[redacted] ngais pryd hyny nad awn yn fy myw
[redacted] fedd o gartref at Shini Ben Chwiw:
[redacted] Jenny mor ffri. &c.

10.

Er hyny rhaid glynu am ronyn wrth Sian,
Yn unlle ni welais un lodes mor lân,

Fe ddichon y gedy arferion mor ffol,
Ac yna caiff Jenny dderbyniad i 'nghôl :
Y seren fwyn ffri,
Sy'n ymffrost pod llu,
Mae gobaith daw Jenny yn briod i mi.

11.

Pan ddelo dydd Calan mi dreia'n lled dŷn
Ei chael yn galenig, mor werthfawr fydd hyn ;
Y fodrwy briodas a rof am ei bys,
Mi'i cym'ra hi'n foddlon pe bai heb un crys ;
Ac yna'n lled ffri,
Bydd Jenny a mi,
Heb ddau mor gariadus i'w gweled â ni.

12.

Mi caraf hi wedi'n tra byddo'n y byd,
Fy nhrysor anwylaf fydd Jenny o hyd ;
Fydd neb yn yr arcal mor ddedwydd â ni.
Brenines fydd Jenny, a *phrince* fyddaf fi :
Cawn fyw yn gytun
O foreu dydd Llun,
A threulio pob diwrnod o'n bywyd yn